

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Chwefror, 2021 drwy 'Zoom', am 8:00 y.h.

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Tegid Jones, Sion Aled Jones, Angela Williams, Darren Morley, William Ifor Hughes, Gareth O. Davies, Naomi Jones, Ceri Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Anwen Jones a Sian Angharad Parry.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Ionawr 2021, (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 04.02.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Ionawr 2021 – (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 04.02.2021).

4. **Datgan buddiant personol –**

Cynghorydd Aled Evans, datgan buddiant personol o dan rhif 28(ch) o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Rydd Chwilog oherwydd ei fod yn aelod ar y pwyllgor hwnnw. Datgan buddiant personol yn rhif 28(g), sef Menter y Plu, oherwydd ei fod ar bwyllgor y Fenter.

Cynghorydd Sion Aled Jones, datgan buddiant personol rhif 28(ff), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Cylch Meithrin Chwilog oherwydd fod ganddo gysylltiad â'r Cylch. Hefyd datgan buddiant personol yn rhif 28(g), sef Menter y Plu, oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr y Fenter.

Cynghorydd Naomi Jones, datgan buddiant personol rhif 28(b), sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y fynwent. Hefyd datgan buddiant personol rhif 28(g), Menter y Plu, oherwydd ei bod yn briod âg un o gyfarwyddwyr y Fenter.

Cynghorydd Darren Morley, datgan buddiant personol rhif 28(dd), sef Clwb Peldroed Llanystumdwy, oherwydd ei fod yn frawd i gadeirydd y clwb peldroed.

Cynghorydd Thomas Prys Jones, datgan buddiant personol rhif 28(c), o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Capel Helyg, Llangybi, oherwydd ei fod yn un o'r Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y Fynwent.

Cynghorydd Tegid Jones, datgan buddiant personol rhif 28(g), sef Menter y Plu, oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr y Fenter, a datgan buddiant personol rhif 28(b) sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y fynwent.

Cynghorydd Aled Davies, datgan buddiant personol rhif 28(ch) Mynwent Chwilog oherwydd ei fod yn aelod o'r pwyllgor.

Cynghorydd Gareth Davies, sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod yn aelod o bwyllgor y fynwent.

Cynghorydd Angela Jones, sef 28(f), Cylch Meithrin Llangybi, a 28(e) Clwb Garddio Ysgol Llangybi oherwydd ei bod yn gysylltiedig â'r ysgol.

5. Materion gan Cyngor Gwynedd

a) Rhybudd cau Ffordd Dosbarth III, Pencaenewydd 20.01.2021 ger coed Trallwyn at Drofa, Pencaenewydd -cyfnod gwaith amnewid polion trydanol ar hyd y ffordd. Derbyn.

b) Cau Ffordd Dosbarth III o'r gogledd i Gapel y Beirdd heibio Hendy a Melin Llecheiddior i'r B4411, Ynys - 08.03.2021 - i gael mynediad diogel i strwythurau uwchben i dorri coed a darparu ceblau ffibr optig ar gyfer prosiect BDUK. Derbyn.

6. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

a. Cais rhif: - C20/1053/41/LL - **Cefn Gwyn, Chwilog**, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6PR - codi adeilad ar gyfer gwartheg ynghyd a darparu llyn slyri. **Dim gwrthwynebiad.**

b) Cais rhif: - C20/1095/41/YA - **Llwyn Helyg, Llangybi**, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6TB - cais hysbysiad o flaen llaw ar gyfer codi adeilad amaethyddol. **Dim gwrthwynebiad.**

7. **Biniau halen** o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt:-

- Ger Gwyddfôr, Chwilog.
- Pentyrch Uchaf, Llangybi.
- Rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan.
- Tan yr Erw, Lon Gefn, Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a gadael i'r Clerc wybod os oes angen ei llenwi - pob un yn iawn, ond y Clerc wedi hysbysu'r Cyngor fod angen llenwi un Bryn Beddau.

8. Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned - Clerc wedi anfon ebost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor i wneud cais. Roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £960.00, ac mae wedi cadarnhau ein bod yn mynd i dderbyn ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned o £417.80 eleni, a blwyddyn nesaf (sef yr un ffigwr a llynedd). Mae'r trefniant ad-dalu wedi cael ei gyfyngu i lwybrau categori 1 a 2. **Derbyn.**

9. Lwfansau Cynghorydd rhwng 1af Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021- angen i bob Cynghorydd lofnodi'r ffurflen os am gymryd neu wrthod y lwfans. Y Clerc wedi anfon copi at bawb drwy ebost/neu drwy'r post cyn y cyfarfod.

10. Llythyr gan Gyngor Tref Nefyn - gofyn i gynghorau lleol gefnogi rheoli'r farchnad dai gwyliau oherwydd fod prisiau tai lleol yn codi'n uchel ac felly profi i fod allan o gyrraedd pobl leol. Maent wedi atodi copi o lythyr parod, ar gyfer ei anfon at Julie James A.S., a chopi at Mark Drakeford Prif Weinidog Cymru, Eluned Morgan A.S. a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd. **Cefnogi.**

11. Cyngor Tref Abermaw - wedi derbyn ebost ganddynt yn son am 'Werth busnesau hunan ddarpar yng Ngwynedd ac yn arbennig Y Bermo'. Maent wedi comisiynu dogfen mewn ymateb i bapur gafodd ei gyflwyno gerbron cabinet Cyngor Gwynedd o dan y teitl 'Gwaith ymchwil tai gwyliau'. **Derbyn er gwybodaeth.**

12. Cofrestrfa Tir EM - Arolwg o Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Gan weithio law yn llaw â Llywodraethau Cymru a'r DG, mae Cofrestrfa Tir EM yn gyfrifol am gofrestru'r holl dir cyrff sector cyhoeddus erbyn 2025, ac yna'r holl dir sydd mewn dwylo preifat erbyn 2030.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o gasglu data mae arolwg a ddatblygwyd gan Gofrestrfa Tir EM ar y cyd ag Un Llais Cymru wedi cael ei anfon at y Clerc, sydd angen cael ei gwblhau erbyn 26.02.2021. **Y Clerc am drefnu i wneud hyn.**

13. Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod -

cysylltu â'ch cymuned leol - gan Llywodraeth Cymru - mae angen ei ddarllen er mwyn gweld os oes angen i'r Cyngor Cymuned wneud rhywbeth arall e.e. cyfryngau cymdeithasol. Penderfynwyd fod gennym wefan, 5 hysbysfwrdd, yn defnyddio papur bro Y Ffynnon bob mis, ac os oedd unrhyw newyddion arall, roeddem yn ei rannu hefo tudalennau cyfryngau cymdeithasol lleol, Pencaenewydd, Chwilog a Llanystumdwy. Felly ar hyn o bryd, nid oedd angen defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ac efallai ei fod yn fwy defnyddiol ar gyfer cynghorau mwy/neu drefol.

14. Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Un Llais Cymru - 10.02.21 am 7 y.h. drwy 'Star Leaf', a bydd Angela Jones, Rheolwr Partneriaethau Parc Cenedlaethol Eryri yn siaradwr gwadd. **Derbyn.**

Materion yn y gymuned.

15. Llanystumdwy

Lodge Gwynfryn - trethdalwyr yn holi os oes ffens wedi cael ei godi ar dir y Cyngor, ger mynedfa Plas Gwynfryn. Wedi derbyn ebost yn dweud:-

"Mae'r Adran Briffyrdd a Adran Cynllunio yn edrych i mewn i'ch ymholiad/cwyn am yr eiddo uchod ar hyn o bryd ac fe'ch hysbysir maes o law o ganlyniadau'r archwiliad hwnnw ynghyd ag unrhyw weithredu pellach os penderfynir felly". Y Clerc wedi holi eto, i gael diweddariad oherwydd fod coed wedi cael ei plannu yno hefyd, ond dal heb gael ateb.

16. Rhoslan/Ynys

Mae ffosydd angen eu hagog, cwteri eu clirio (a ffendio ambell un mewn drysni) a manau pasio angen 'sweeper' i glirio dail a phydredd. Mae'r sefyllfa yn ddrwg iawn, o fynedfa Tyddyn Crythor i fynedfa Capel y Beirdd.

Mae pobol yn ofni mynd i'r ochor mewn manau pasio gyda'i ceir gan eu bod yn amau eu bod yn mynd i le meddal a mynd yn sownd. Mae gwyneb caled i rai manau pasio ond fod dail ac ati yn un haen o faw gwlyb ar eu gwyneb ac angen ei glirio. **Y Clerc wedi cysylltu hefo'r adran berthansol, ond heb dderbyn ymateb eto.**

17. Chwilog

Mae darn peryglus o ffos rhwng Chwilog Fawr a Gwag y Noe, a ochor y ffordd yn gwanio i'r ffos. Mae angen sylw. **Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.**

18. Pencaenewydd/Sardis

19. Llangybi

a)Adroddiad blynyddol cae chwarae Llangybi 22.12.2020 gan 'Fields in Trust' - y Clerc wedi gosod rhybudd hefo manylion cyswllt ger y cae a'r hysbysfwrdd. Derbyn.

b) **Stesion Llangybi - Melin Pencoed** - llyfogydd ar hyn y lon ar y tro, y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.

20. **Enwau lleol** - gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol. Y Clerc wedi holi'r Adran Cynllunio / Ymgynghoriaeth eto, ac yn disgwyl ymateb ganddynt. Fe soniwyd cynt fod enwau gwahanol ar rai pontydd, ac y byddai yn medru bod o gymorth i wneud yn siwr fod yr enw cywir yn cael ei ddefnyddio.

Penderfynwyd gwneud 4 enw pont yn gyntaf, sef Pont Rhydybenllig, Pont Rhydcroesau, Pont Hendre-garcin a Phont Rhyd yr Eirin, ac mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau am brisiau gan ddau gwmni llechi lleol, sef Llechi'r Ddraig a Cerrig Cyf. **Y Clerc am edrych ar 'Map Gwynedd' ar wefan Cyngor Gwynedd i weld os oedd y pontydd yn 'rhestredig/listed', rhag ofn y bydd angen canitâd ychwanegol.**

Materion Ariannol

21. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Y Clerc wedi anfon e-bost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 04.02.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2021. Y Clerc wedi mynd â'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod.

22. **Talu cysylltiad Wifi** o'r cyfrif Budd Cymunedol-gweler manylion isod.

23. **Archwilio mewnl** - penderfynu ail ofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd i wneud yr archwiliad am y flwyddyn sy'n dod. Derbyn.

24. **Praesept 2021-2022** - Clerc wedi anfon e-bost at Bennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd yn dweud fod Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn gofyn am £18,000.00 o braesept ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gohebiaeth gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn cadarnhau derbyn ffurflen praesept o £18,000.00 am y flwyddyn 2021-2022.

25. **Cwmni Lightsource**, fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron - **heb dderbyn y taliad ganddynt eto**. Fe dderbyniwyd £3951.39 ganddynt llynedd, ar 07.02.2020, ac fe gafodd ei dalu i'r cyfrif Budd Cymunedol. **Y Clerc wedi gwneud ymholiadau, ac wedi cael gwybod fod y swm wedi codi i £3996.20 eleni, sef £44.81 yn fwy. Bydd wedi cael ei dalu i'r cyfrif erbyn 19.02.2021.**

26. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 04.02.2021:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS £
Archwilio Cymru allannol	Archwilio 2019-2020 (ARINV/005237)	<u>285.55</u>		<u>285.55</u>	<u>285.55</u>
SLCC -tâl aelodaeth 01.03.21-28.02.2022	SLCC	<u>112.00</u>		<u>112.00</u>	<u>112.00</u>
Clifford Hughes, Tŷ Newydd, Llangybi	<u>Torri a chlirio cae chwarae Llangybi</u> 10.07.20&01.09.20&10.10.20,	<u>288.00</u>			

	Golchi matiau Barbio tu cefn i'r ffens	<u>38.00</u> <u>76.00</u>		<u>402.00</u>	
	<u>Ail daliad barbio</u> <u>Ilwybrau(Medi 2020)</u> O dan bont traeth Afonwen Ynysgain Bach Bythynod Tŷ Newydd Clawdd llanw Bont Fechan	<u>108.00</u> <u>95.00</u> <u>100.00</u> <u>114.00</u>		<u>417.00</u>	
	Torri a barbio clawdd lon Maeynwern, Llanystumdwy	<u>168.00</u>		<u>168.00</u>	<u>987.00</u>
Wifi Neuadd Llanystumdwy	O'r cyfrif Budd-Cymunedol Mae'r taliad o £38.34 x 12 mis rhwng 01.03.2020- 28.02.2021 (TalkTalk)	<u>460.08</u>		<u>460.08</u>	<u>460.08</u>
Wifi Capel Pencaenewydd	O'r cyfrif Budd-Cymunedol Mae taliad o £54.24 x 7 mis rhwng 01.04.2020-31.10.20, ac yn £37.14x 5 mis rhwng 01.11.20-31.03.21 (BT).	<u>379.68</u> <u>185.70</u>		<u>565.38</u>	<u>565.38</u>

Cyflog mis Ionawr 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2021 35 awr x £10.83 = £379.05	379.05 - Llai treth £76.00 = £303.05	<u>303.05</u>	<u>303.05</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ionawr 2021	380.00 x 20% = £76.00	<u>76.00</u>	<u>76.00</u>
Costau'r Clerc Ionawr 2021	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

27. **CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2020 o'r Ffynnon ac ar yr hysbysfyrddau a'n gwefan gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2021. Derbyniwyd llythyr/ebost a mantolen gan bob un. Cytunwyd i dalu'r symiau isod ar y noson (drwy fod yn deg ac edrych ar angen presennol pob un). Gwnaeth y Clerc anfon ffurflen o flaen y cyfarfod at y cynghorwyr yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan y gwahanol fudiadau am ofyn am gymorth ariannol, ac fe ddangoswyd y ceisiadau papur i gyd i'r Cadeirydd ar 03.02.21). Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Busnes a gafodd ei gynnal ar 12.11.2020, cytunwyd ar faint a ddylid ei wario ar y ceisiadau am gymorth ariannol eleni. (*Uchafswm gwariant o £8.32 x 1518 o boblogaeth cymuned Llanystumdwy=£12,629.76*)

28.	<u>2020 - 2021 - Cais gan:-</u>	BACS £	Cynghorwyr yn ymneilltuo
(a).	Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi	500.00(s)	Neb
(b).	Mynwent Newydd Llanystumdwy	1000.00	Naomi Jones, Gareth Davies, Tegid Jones
(c).	Mynwent Capel Helyg, Llangybi	300.00	Thomas Prys Jones
(ch).	Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog	1000.00	Aled Davies, Aled Evans
(d).	Neuadd Goffa Chwilog	300.00	Neb
(dd).	Clwb Peldroed Llanystumdwy	500.00	Darren Morley
(e).	Clwb Garddio Ysgol Llangybi	200.00 (s)	Angela Jones
(f).	Cylch Meithrin Llangybi	1000.00	Angela Jones
(ff).	Cylch Meithrin Chwilog	2000.00	Sion Aled Jones
(g).	Menter y Plu	200.00 (s)	Sion Aled Jones, Tegid Jones, Naomi Jones, Aled Evans,
(ng).	Dawns i Bawb	50.00	Neb
(h).	Ffermwyr Ifanc Eryri	200.00	Neb
(i).	Mynwent Tai Duon	50.00	Neb
(l).	Radio Ysbyty Gwynedd	50.00	Neb
(ll).	Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022, Sir Ddinbych	50.00	Neb
(m).	Elusen Ambiwlans Awyr Cymru	100.00	Neb

Cyfanswm o £6,600.00 & £1,500.00 (Tý Doctor 14.04.2020) = **£8,100.00 o'r cyfrif cyfredol am y flwyddyn (01.04.20-31.03.21).**

Cyfanswm o £900.00 & £500.00 (O Ddrws i Ddrws ar 27.09.2020) = **£1400.00 o'r cyfrif budd-cymunedol (01.04.20 - 31.03.21).**

Materion hwyr-- gyda chaniatâd y Cadeirydd cytunwyd i drafod y materion yma ar ddiwedd y cyfarfod.

29. **Cais rhif: C21/0071/41/AC - Tir yn Bro Sion Wyn, Chwilog, LL53 6NJ**

Cais i ryddhau amodau ar ganiatâd cynllunio a roddwyd trwy apel i gytuno ar fanylion deunyddiau allannol, tirlunio a datganiad dull adeiladu.

Penderfynwyd **gwrthod** ar sail y materion isod:-

- Fod pryderon ymysg y cyhoedd oedd yn byw gerllaw am y cerbydau/faniau yn parcio wrth ymyl pan fyddai'r gwaith yn cael ei wneud i adeiladu'r tý. Mae'r

lleoliad yn gyfyng iawn, yn enwedig y darn tir sydd o flaen rhif 1 a 2 Bro Sion Wyn.

- Mae'r cynllun gwreiddiol yn edrych yn llai na'r hyn sydd yn ymddangos ar y cynllun diweddaraf, felly mae pryder y bydd llai byth o le i barcio pan fydd y tŷ newydd wedi cael ei adeiladu.

30. **Chwilog Fawr, Chwilog**- derbyniwyd ebost gan Mr Simon Hunt, Coed Cymru, (02.02.21) yn gofyn am sylwadau 16.02.2021 ar gynllun i greu coedwig Glastir yn Chwilog Fawr. **Penderfynwyd nad oedd gan neb wrthwynebiad, ac felly'n cefnogi'r cynllun.**

31. **Swyddfa Bost deithiol** – derbyniwyd gwybodaeth y byddent yn ymweld â Throed y Garn, Llanybi bob pŵawr Iau rhwng 16:00-17:00 o'r 04.02.21 ymlaen.